| POLISI CWYNION AC APELIADAU I YMGEISWYR | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Cyfathrebu, Marchnata, Recriwtio a Derbyniadau | | |
| **Awdur** | Rheolwr Derbyniadau | | |
| **Awdurdodwyd Gan:** | Y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Marchnata, Recriwtio a Derbyniadau | | |
| **Gweithredu gan:** | Derbyniadau/Swyddfa Ryngwladol/Ymchwil Ôl-raddedig | | |
| **Gweithdrefn** | | | |
| **Fersiwn** | 1 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Bwrdd Academaidd |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | Tachwedd 2021 | **Rhif cofnod:** | |
| **Statws:** | Wedi ei gymeradwyo | **Dyddiad Gweithredu:** | Tachwedd 2021 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 3 blynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Gorffennaf 2024 |

| | |
|---|---|
| Rwyf wedi cynnal prawf sgrinio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. | ✓ |
| Rwyf wedi ystyried effaith y polisi ar yr iaith Gymraeg a darpariaeth yr iaith Gymraeg yn y Brifysgol. | ✓ |

## Cwynion ac Apeliadau i Ymgeiswyr

### CYFLWYNIAD

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i gynnal prosesau derbyniadau teg, cyson a thryloyw. Mae staff Wrecsam yn ceisio gweithio'n effeithlon a chwrtais, a gweithredu yn ôl yr egwyddorion a'r gweithdrefnau a nodwyd ym Mholisi Derbyniadau'r Brifysgol, a'n hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg, cyflogaeth a'r gwasanaethau a ddarperir.

Mae'r polisi hwn yn bodoli ar gyfer yr amgylchiadau hynny lle mae ymgeisydd yn anfodlon â'n proses ddethol, neu ei chanlyniad. Mae'n nodi'r seiliau y bydd y Brifysgol yn ystyried cwynion ynghylch ei gweithdrefnau derbyniadau, ac yn egluro beth all ymgeiswyr ei wneud os ydynt yn dymuno gwneud cais i adolygu penderfyniad.

### DIBEN A CHWMPAS

Mae cwyn yn bryder penodol sy'n ymwneud â gwall gweithrediadol, anghysondeb neu gamweinyddiaeth o fewn y broses neu'r polisïau derbyniadau.

Er enghraifft, efallai y bydd cwyn yn ymwneud â'r prosesau neu'r wybodaeth a ddarparwyd yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch derbyniadau, hepgoriadau ffioedd, bwrsariaethau, neu ymddygiad aelod o staff ynghlwm ag un o'r rhain. Ni ellir derbyn cwynion yn ymwneud â

chyrff allanol megis UCAS, y Cyngor Ymchwil, Gofal Cymdeithasol Cymru neu gyrff ariannu eraill, a rhaid cyflwyno'r rhain i'r sefydliad perthnasol

Ystyrir apêl yn gais am adolygiad ffurfiol o benderfyniad ynghylch derbyniadau, neu eiriad/telerau/amodau cynnig, neu benderfyniad ynghylch statws ffioedd cyn-mynediad, sy'n gofyn i'r Brifysgol wirio y gwnaed y penderfyniad yn deg ar sail yr holl dystiolaeth a ddarparwyd yn wreiddiol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob ymgeisydd ar bob dull (e.e. llawn amser, rhan amser, ar-lein), lefel (e.e. blwyddyn sylfaen, gradd Baglor, gradd Meistr) a rhaglenni astudio ym Mhrifysgol Wrecsam, yn cynnwys rhaglenni a addysgir a rhaglenni ymchwil. Mae'n berthnasol i ymgeiswyr Cartref a Rhyngwladol (yn cynnwys yr UE).

NID yw'n berthnasol i ymgeiswyr sy'n gwneud cais i astudio mewn sefydliadau masnachfraint/partner Prifysgol Wrecsam. Yn lle hynny, dylai ymgeiswyr sefydliadau masnachfraint/partner gyfeirio at y weithdrefn gwynion ac apeliadau i ymgeiswyr y sefydliad maen nhw'n dymuno astudio ynddo.

Mae'r polisi yn cyd-fynd â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnad a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ynghylch cwynion ac apeliadau (yn enwedig cyngor yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnad ynghylch deddf diogelu cwsmeriaid (adran 6) a Disgwyliadau ac Arferion ar gyfer Derbyniadau, Recriwtio ac Ehangu Mynediad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd).

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd wneud cwynion i'r Brifysgol. Os derbynnir cwyn gan riant, athro, ymgynghorydd arall neu unigolyn perthnasol, mae'n rhaid i ni gael caniatâd ysgrifenedig gan yr ymgeisydd i drafod ei gais ef/hi gyda'r trydydd parti dan sylw. Gall unrhyw ymgeisydd ddefnyddio'r weithdrefn, hyd yn oed os ydynt wedi cyflwyno cais drwy UCAS neu'n uniongyrchol i'r Brifysgol.

Gall ymgeiswyr, ac unrhyw unigolyn y gwneir cais yn ei erbyn, fod yn sicr yr ymdrinnir â chwynion yn gyfrinachol, a bod eu preifatrwydd yn cael ei barchu. Fodd bynnag, efallai y bydd angen datgelu gwybodaeth i eraill er mwyn delio â'r gwyn, ac mewn amgylchiadau cyffelyb, hysbysir y partïon dan sylw o ddatgeliad o'r fath.

**Egwyddorion Cyffredinol**

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl gwynion a'r apeliadau yn cael eu harchwilio'n drylwyr, yn brydlon a gan ystyried cyfrinachedd bob parti.

Ni fydd unrhyw ymgeisydd dan anfantais mewn unrhyw ffordd oherwydd nad ydynt wedi ymarfer eu hawliau dan y weithdrefn hon.

**Cam Un: (Cwyn/Apêl Anffurfiol)**

1. Gellir datrys y rhan fwyaf o gwynion yn foddhaol yn anffurfiol.

2. Os yn bosibl, dylai'r Ymgeisydd drafod ei gŵyn ar lafar, neu'n ysgrifenedig, gyda'r Swyddfa Dderbyniadau (myfyrwyr Cartref) yn gyntaf, neu'r Swyddfa Ryngwladol (ar gyfer myfyrwyr Rhyngwladol (yn cynnwys yr UE), gan nodi natur a manylion y gŵyn. Os gwneir cwyn ar lafar, mae'n debygol y gofynnir i'r ymgeisydd ei chyflwyno yn ysgrifenedig.

3. Rhaid gwneud y gŵyn gyntaf cyn pen 40 diwrnod calendr o'r weithred/diffyg gweithredu, sef achos y gŵyn.

Dylid dilyn y camau gweithredu canlynol:

- Dod o hyd i ddatrysiad drwy gael trafodaeth gyda'r Ymgeisydd. Efallai y bydd y datrysiad yn cynnwys camau gweithredu penodol.
- Dod o hyd i ddatrysiad drwy gael trafodaeth gyda'r staff perthnasol.

Bydd canlyniad cam un yn cael ei rannu yn ysgrifenedig cyn pen ugain diwrnod gwaith.

**Cam Dau: (Cwyn/Apêl Ffurfiol)**

1. Os nad yw'r Ymgeisydd yn fodlon â chanlyniad y cam anffurfiol dan Gam Un y gweithdrefnau hyn, gall ef/hi ddewis i weithredu Cam Dau (y Weithdrefn Ffurfiol) cyn pen deg diwrnod gwaith o dderbyn hysbysiad o ganlyniad gweithdrefn Cam 1.

2. Dylid gwneud y gŵyn/apêl yn ysgrifenedig (mae neges e-bost yn dderbyniol) i'r Swyddfa Dderbyniadau (myfyrwyr Cartref) yn gyntaf, neu'r Swyddfa Ryngwladol (ar gyfer myfyrwyr Rhyngwladol (yn cynnwys yr UE). Os bydd y gŵyn yn ymwneud ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Swyddfa Dderbyniadau, dylid ei chyflwyno'n ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr. Os bydd y gŵyn yn ymwneud â chais i ddilyn gradd Ymchwil, dylid ei chyflwyno i'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr

3. Yn gryno, dylai'r gŵyn ysgrifenedig nodi: natur y gŵyn/apêl, y camau anffurfiol a gymerwyd (os o gwbl); manylion yr ymatebion a dderbyniwyd; a datganiad yn nodi pam bod yr ymgeisydd yn anfodlon a; heb ragfarn i unrhyw ddatrysiad ffurfiol a ellir ei bennu, y datrysiad y mae'r ymgeisydd yn ei geisio. Dylid darparu unrhyw dystiolaeth ategol yn ystod y cam hwn.

4. Bydd y Swyddfa Dderbyniadau/Swyddfa Ryngwladol neu'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn cydnabod ei derbyn cyn pen pum diwrnod gwaith.

5. Bydd cwynion yn ymwneud â

   a) gweithredu gweithdrefn neu

   b) ddarparu gwasanaethau neu gyfleusterau o fewn y Broses Dderbyniadau neu

   c) weithredoedd neu ymddygiad aelod o staff

   yn cael eu harchwilio gan y Swyddfa Dderbyniadau (ar gyfer myfyrwyr Cartref) neu'r Swyddfa Ryngwladol (ar gyfer myfyrwyr Rhyngwladol (yn cynnwys yr UE)) neu'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai priodol), fel y gwelir yn briodol.

6. Bydd apeliadau i ailystyried penderfyniad sy'n ymwneud â derbyniad ar gwrs ym Mhrifysgol Wrecsam yn cael eu trosglwyddo ymlaen at y Deon Cyfadran priodol i'w archwilio. Gellir gwneud apêl dim ond os oes seiliau digonol ar gael, fel y'u diffinnir:

   - Anghysondeb gweithredol, lle nad yw Prifysgol Wrecsam wedi glynu wrth ei gweithdrefnau cyhoeddedig ei hun;

- Cyflwyno deunydd neu wybodaeth newydd sy'n berthnasol ac sydd angen ystyriaeth;

- Tystiolaeth o ffafriaeth neu ragfarn.

Dylid nodi na fydd apeliadau yn erbyn barn academaidd neu broffesiynol y rheiny sy'n gwneud penderfyniad ynghylch y cais yn cael ei dderbyn.

7. Fel arfer, y nod fydd rhannu'r canlyniad gyda'r ymgeisydd cyn pen ugain diwrnod gwaith.

8. Os nad yw'n bosibl ymateb yn llawn cyn pen ugain diwrnod gwaith, hysbysir yr ymgeisydd yn ysgrifenedig o'r cyfnod amser y gellir disgwyl cael ymateb llawn.

**Cam Tri**

1. Os nad yw ymgeisydd yn fodlon â'r penderfyniad a wnaed yng ngoleuni unrhyw gŵyn/apêl dan Gam 2 uchod, gall yr ymgeisydd wneud cais i'r achos gael ei ddwyn at sylw'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr neu'r Dirprwy Is-ganghellor (rhaglenni a addysgir) neu'r Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil) (rhaglenni ymchwil) fydd yn archwilio'r mater yn bellach. Dylai cais o'r fath nodi'r seiliau am yr apêl a bodloni un o'r meini prawf canlynol:

    - Bod anghysondebau gweithrediadol yn bodoli yn archwiliad y gŵyn gan y Cyfarwyddwr perthnasol
    - Roedd canlyniad yr archwiliad yn amhriodol yng ngoleuni'r dystiolaeth

Dylid gwneud ceisiadau drwy ddefnyddio llythyr neu neges e-bost dyddiedig at y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr neu'r Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil) cyn pen 14 diwrnod o dderbyn canlyniad Cam dau'r gŵyn neu'r apêl.

Mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr/y Dirprwy Is-ganghellor neu'r Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil) yn gyfrifol am bennu a gynhaliwyd archwiliad Cam dau yn deg, a bod yr holl benderfyniadau sy'n ymwneud ag o yn rhesymol ac wedi'u cyfiawnhau yng ngoleuni'r dystiolaeth. Fel arfer, ni dderbynnir tystiolaeth newydd yn ystod y cam hwn. Mae'r penderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno gwybodaeth yn derfynol. Efallai y gelwir ar gymorth ag arbenigedd aelodau staff eraill yn y Brifysgol i lywio eu beirniadaeth, ond nid oes gorfodaeth iddynt wneud hynny. Mae eu penderfyniad ynghylch cwyn/apêl yn derfynol, ac nid oes hawl na phroses bellach ar gyfer apelio gyda'r Brifysgol.

**Monitro Cwynion/Apeliadau**

Bydd cofnodion ysgrifenedig o ganlyniad y cwynion a'r apeliadau sy'n ymwneud â Derbyniadau'n cael eu cadw yn nwylo'r Swyddfa Dderbyniadau (ar gyfer myfyrwyr Cartref), y Swyddfa Ryngwladol (ar gyfer myfyrwyr Rhyngwladol), y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr, neu'r Deon Cyfadran perthnasol, fel y gwelir yn briodol, er mwyn darparu adroddiad blynyddol dienw i Fwrdd yr Is-ganghellor ynghylch y ffordd yr ymdriniwyd â materion o'r fath ac unrhyw themâu cyffredinol sy'n dod i'r amlwg.